# ADRODDIAD LLESIANT GWEITHWYR BLYNYDDOL 2020/2021

1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021

Cyngor Sir Gâr • Carmarthenshire County Council

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

| | Pwnc | Tudalen |
|---|---|---|
| 1.0 | Crynodeb Gweithredol | |
| 2.0 | Yr hyn rydym wedi'i wneud fel Adran yn ystod COVID-19 | |
| 3.0 | Diweddariad Iechyd a Llesiant | |
| 4.0 | Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch Corfforaethol | |
| 5.0 | Ystadegau Damweiniau / Digwyddiadau Cyffredinol yr Awdurdod | |
| 6.0 | Diwrnodau Cyfwerth ag Amser Llawn Cyffredinol a Gollwyd a Data Salwch yr Awdurdod | |
| 7.0 | Data Iechyd Galwedigaethol Cyffredinol yr Awdurdod | |
| 8.0 | Ffocws yr Adran - Prif Weithredwr | |
| 9.0 | Ffocws yr Adran - Cymunedau | |
| 10.0 | Ffocws yr Adran – Gwasanaethau Corfforaethol | |
| 11.0 | Ffocws yr Adran - Addysg a Phlant | |
| 12.0 | Ffocws yr Adran - Amgylchedd | |
| 13.0 | Blaenoriaethau ar gyfer 2021/2022 | |
| 14.0 | Manylion Cyswllt ar gyfer Llesiant Gweithwyr | |
| | | |

# 1.0 Crynodeb Gweithredol

Dyma'r Adroddiad Blynyddol ar Lesiant Gweithwyr Corfforaethol (Iechyd a Diogelwch, Iechyd Galwedigaethol, Gweithio'n Ddiogel ac Iechyd a Llesiant Gweithwyr). Bydd yr adroddiad yn rhoi trosolwg byr o'r gwaith y mae'r tîm wedi bod yn rhan ohono dros y 12 mis diwethaf. Mae'r gwaith hwn wedi cynyddu'n sylweddol oherwydd COVID-19 a'r effaith ar iechyd, diogelwch a llesiant ein staff, cwsmeriaid a phreswylwyr Cyngor Sir Caerfyrddin.

I ddechrau, cefnogodd y Tîm Iechyd a Diogelwch wasanaethau critigol gan gynnwys y Gwasanaeth Gofal, Ysgolion, Gwastraff, Priffyrdd, Plant / Gofal Cymdeithasol i Oedolion a gwasanaethau allweddol eraill i'w galluogi i barhau i ddarparu'r gwasanaethau hanfodol hyn er gwaethaf y pandemig cenedlaethol a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r risgiau anhysbys a'r diffyg canllawiau cenedlaethol perthnasol.

Yn ystod y pandemig, cydnabuwyd y tîm iechyd a diogelwch fel arweinydd yr awdurdod ar gyfer cyngor proffesiynol, cymwys a chytbwys yn absenoldeb cyngor neu ganllawiau iechyd cenedlaethol neu gyhoeddus a oedd yn cynorthwyo gyda'r penderfyniadau mesuredig a chymesur sy'n ofynnol yn ystod camau cynnar y pandemig.

Yn dilyn y cyfnod argyfwng, parhaodd y tîm iechyd a diogelwch i fod yn elfen hanfodol a gofynnol o'r cyfnod adfer, gan ddarparu cyswllt uniongyrchol a phroffesiynol â'r Grwpiau Rheoli Arian ac Aur na fyddai'n datblygu unrhyw adferiad o wasanaeth heb gynnwys y tîm iechyd a diogelwch strategol gan y gellid sicrhau bod yr asesiadau risg gofynnol a'r arferion gweithio diogel ar gyfer y gwasanaethau sy'n ymadfer yn cael eu cynnal yn unol â'r ddeddfwriaeth, y canllawiau a'r arferion gorau perthnasol.

Ymatebodd y tîm Llesiant Gweithwyr yn gyflym i'r pwysau a roddwyd ar yr awdurdod yn sgil y pandemig drwy addasu'r ffordd y darparwyd ein cymorth i wasanaethau. Cyflawnwyd hyn drwy fabwysiadu trefniadau gweithio hyblyg, darparu mynediad ar unwaith i'r Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch Strategol a darparu clinigau o bell ac ati.

Er gwaethaf y galw am y gwasanaeth, rhoddwyd ymatebion i ymholiadau a phryderon y tîm yn effeithlon, yn unol â blaenoriaethau ac i'r safonau uchaf posibl.

Daeth yr Ymgynghorwyr Strategol yn aelodau allweddol o fforymau strategol lle'r oeddent yn gallu rhoi cyngor ac arweiniad cymwys drwy adolygu a monitro canllawiau Llywodraeth ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyson wrth i'r pandemig waethygu.

Canlyniad y gwaith sy'n cael ei wneud oedd datblygu 330 o asesiadau risg, arferion gweithio diogel, canllawiau a dogfennau briffio gan y tîm rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021. Mae'r dogfennau hyn, ynghyd ag ymweliadau hanfodol i gefnogi'r gwaith o ddarparu amgylcheddau sy'n ddiogel o ran COVID, wedi sicrhau bod yr awdurdod, ei weithwyr, ei aelodau etholedig a'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r awdurdod wedi gallu gwneud hynny gan gael sicrwydd bod risgiau wedi'u lleihau cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol ac yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Parhaodd gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol i weithredu o bell ac roeddent yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol i weithwyr a oedd yn gweithio mewn rolau critigol yn ogystal â'r gweithwyr hynny yr oedd angen cymorth perthnasol arnynt wrth addasu i ffyrdd newydd o weithio, y rhai y nodwyd eu bod mewn mwy o berygl o'r Coronafeirws a'r rhai a oedd yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r pandemig a'i effaith ar eu gwaith a'u bywydau personol.

Datblygodd Cydgysylltwyr Llesian Gweithwyr dudalennau newydd ar y fewnrwyd yn cyfeirio gweithwyr at ystod eang o wasanaethau hunangymorth a gwasanaethau cymorth eraill mewn ymateb i'r materion y mae pobl yn eu hwynebu megis gweithio gartref, iechyd meddwl ac ymyriadau ffitrwydd iechyd. Cynhaliwyd y ffair iechyd a llesiant rithwir gyntaf a darparwyd amrywiaeth o sesiynau ar-lein i weithwyr eu dewis yn dibynnu ar eu hanghenion a'u diddordebau penodol.

Addasodd y tîm Gweithio'n Ddiogel ei ddull o hyfforddi er mwyn iddynt allu parhau i ddarparu'r dysgu gofynnol ar gyfer gwasanaethau hanfodol er mwyn adleoli gweithwyr yn ddiogel o feysydd gwaith amgen i gefnogi parhad busnes.

Yn ogystal, bydd yr adroddiad yn rhoi data ystadegol ar y canlynol:

- Ystadegau damweiniau/digwyddiadau.
- Ffigurau absenoldeb salwch.
- Data Iechyd Galwedigaethol.

Mae wedi bod yn flwyddyn heriol . Fodd bynnag, mae hyn wedi tynnu sylw at bwysigrwydd arweinyddiaeth iechyd a diogelwch dda, ymgysylltu, ymgynghori a rheoli iechyd a diogelwch fel rhan o amcanion corfforaethol a chynllunio busnes yr awdurdod.

# 2.0 Beth rydym wedi'i wneud yn ystod COVID-19?

**Iechyd a Diogelwch**

Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, mae'r tîm Iechyd a Diogelwch wedi creu, adolygu a chynnal, yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth, 330 o ddogfennau a oedd yn caniatáu i wasanaethau weithredu mewn ffordd newydd a diogel yn ystod y cyfnod argyfwng ac adfer. Gellir gweld dadansoddiad o'r rhain yn y tabl isod.

| Dogfennaeth | Nifer y Dogfennau a Grëir |
|---|---|
| Cwestiynau Cyffredin | 1 – cyffredinol a oedd yn cynnwys Cwestiynau Cyffredin ar gyfer staff, disgyblion, rheolwyr ac aelodau o'r cyhoedd. |
| Ffurflenni e.e., Asesiadau Iechyd / Olrhain Cysylltiadau | 3 |
| Canllawiau COVID e.e., Asthma / Gorchuddion Wyneb / Trafnidiaeth / Gweithio o Bell / Cyfarpar Sgrîn Arddangos | 16 |
| Asesiadau Risg (AR) e.e., Rhai Penodol i'r Gwasanaeth, Cyffredinol, Wedi'u teilwra. | 149 |
| Arferion Gweithio Diogel (AGD) e.e. Rhai Penodol i'r Gwasanaeth, Cyffredinol, Wedi'u teilwra. | 161 |
| **Cyfanswm** | **330** |

**CYFNOD ARGYFWNG**

I ddechrau, rhoddodd y Tîm Iechyd a Diogelwch gyngor cymwys i'r Grwpiau Tactegol Arian ac Aur a chynghori a chefnogi gwasanaethau hanfodol. Sicrhaodd y tîm gydymffurfiaeth â rheoliadau, canllawiau ac arferion gorau'r coronafeirws drwy ddatblygu asesiadau risg perthnasol, arferion gweithio diogel a chanllawiau penodol i'w dilyn gan yr holl wasanaethau hanfodol, gwasanaethau cymorth allweddol a phob rhan arall o'r awdurdod a oedd yn gweithio gartref neu mewn rolau amgen sy'n cefnogi gwasanaethau hanfodol.

Roedd trosolwg **byr** o **ddarnau allweddol** o waith a wnaed yn ystod y cyfnod argyfwng yn cynnwys:

- Datblygu asesiadau risg perthnasol ac arferion gweithio diogel ar gyfer y gwasanaethau Cartrefi Gofal a Gofal Cartref er mwyn sicrhau bod yr holl fesurau gofynnol a nodwyd drwy

ganllawiau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu nodi a'u gweithredu.

- Datblygu asesiadau risg perthnasol ac arferion gweithio diogel i gefnogi'r trefniadau gweithio diogel ar gyfer paratoi a dosbarthu parseli bwyd o ysgolion ac i deuluoedd sy'n agored i niwed, a'r rhai sydd â'r risg uchaf o'r Coronafeirws a gafodd eu cynghori i hunanwarchod.

- Ar y cyd â'r tîm Iechyd a Llesiant Gweithwyr a'r tîm Rheoli Pobl, bu'r tîm iechyd a diogelwch yn datblygu a rhannu'r canllawiau diweddaraf ar gyfer rheolwyr a gweithwyr yr oedd yn ofynnol iddynt weithio gartref a hyrwyddwyd y gofyniad i gynnal asesiadau Cyfarpar Sgrin Arddangos perthnasol.

- Datblygu asesiadau risg perthnasol ac arferion gweithio diogel ar gyfer y gwasanaeth Sbwriel ac Ailgylchu yr oedd yn ofynnol iddynt barhau i weithredu a chynnal gwasanaethau drwy gydol y pandemig.

- Datblygu asesiadau risg perthnasol ac arferion gweithio diogel ar gyfer canolfannau ysgol a oedd ar agor drwy gydol y pandemig i ddarparu cymorth gofal plant i'r rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau critigol neu'r rhai a oedd yn cael eu hystyried yn ddysgwyr agored i niwed.

- Datblygu asesiadau risg perthnasol ac arferion gweithio diogel ar gyfer darparu gwasanaethau Gofal Cartref a ddarperir i bobl yn y gymuned yn ddiogel.

- Datblygu asesiadau risg perthnasol ac arferion gweithio diogel ar gyfer gwasanaethau critigol eraill fel Gwasanaethau Fflyd a Chynnal a Chadw Priffyrdd yr oedd yn ofynnol iddynt barhau ag elfennau hanfodol o'u gwasanaeth.

- Datblygu canllawiau a chyngor i weithwyr Cyngor Sir Caerfyrddin ar bynciau penodol gan gynnwys darpariaeth cyfarpar diogelu personol, darpariaeth hylif diheintio dwylo, asthma a chefnogi'r gweithwyr hynny a oedd mewn categorïau agored i niwed.

- Roedd y tîm iechyd a diogelwch yn cefnogi'r is-adran Eiddo i nodi a gweithredu mesurau rhesymol i'w cyflwyno mewn adeiladau allweddol er mwyn sicrhau bod yr adeiladau'n 'ddiogel o ran COVID' pe na fyddai gweithio gartref yn bosibl.

- Cefnogi a gweithio ar y cyd â gwasanaethau cymorth canolog i ddatblygu a chyhoeddi gwybodaeth berthnasol i'w rhoi i staff gan gynnwys canllawiau i reolwyr, cwestiynau cyffredin a phynciau penodol.

- Cymryd yr awenau o ran darparu cyngor proffesiynol, cymwys i'r Timau Rheoli Adrannol ac uwch dimau rheoli o fewn adrannau.

**CYFNOD ADFER**

Roedd y Tîm Iechyd a Diogelwch yn hanfodol yn ystod cyfnod adfer y pandemig. Yn achos pob gwasanaeth neu elfen o wasanaethau a oedd yn paratoi ailddechrau, roedd angen asesiadau risg, arferion gweithio diogel, ymweliadau safle i gynghori ar y gofynion sy'n benodol i bob gwasanaeth i sicrhau bod eu safleoedd yn gallu bod yn ddiogel o ran COVID.

Bu'r Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch Strategol yn gweithio gyda Chyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth a'r Grwpiau Rheoli Aur ac Arian i sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r rheoliadau o ran Covid.

Mae'r nifer fawr o Asesiadau Risg ac Arferion Gweithio Diogel yn dangos bod angen i'r rheolwyr gwasanaeth gael cyngor a chymorth cymwys.

Rhoddodd yr Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch Strategol ddiweddariadau ac argymhellion rheolaidd o benderfyniadau'r Grwpiau Rheoli Aur ac Arian.

Roedd trosolwg **byr** o **ddarnau allweddol** o waith a wnaed i gefnogi gwasanaethau yn ystod y cyfnod adfer yn cynnwys:

- Roedd y tîm iechyd a diogelwch yn rhan o'r gwaith cychwynnol o ddatblygu'r dogfennau adfer gan gynnwys y rhestr wirio adfer, y templed a'r broses asesu risg.

- Hwylusodd y tîm iechyd a diogelwch ymweliadau safle i nodi a gweithredu mesurau rhesymol i'w cyflwyno mewn adeiladau perthnasol er mwyn sicrhau, gan fod gwasanaethau'n adfer, fod yr adeiladau y mae staff a'r cyhoedd yn cael mynediad atynt yn 'ddiogel o ran COVID'.

- Roedd iechyd a diogelwch yn elfen allweddol o unrhyw adferiad o wasanaeth / gweithgaredd lle'r oedd yn ofynnol i'r gwasanaeth ymgysylltu â'r tîm iechyd a diogelwch yn gynnar er mwyn datblygu a chymeradwyo asesiadau risg ac arferion gweithio diogel i'w galluogi i symud ymlaen drwy'r broses adfer Arian / Aur.

- Asesiadau risg ar gyfer ysgolion unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, cynhaliwyd ymweliadau ag ysgolion i nodi agweddau allweddol yr oedd eu hangen i alluogi dychwelyd yn ddiogel i ysgolion ym mis Mehefin 2020 a mis Medi 2020.

- Cynhaliwyd sesiynau / gweithdai galw heibio i Benaethiaid i gefnogi'r gwaith o ddatblygu asesiadau risg safle-benodol ar gyfer pob ysgol. Roedd y sesiynau'n rhoi cyfleoedd i Benaethiaid godi a thrafod unrhyw bryderon a oedd yn cael eu nodi a darparu negeseuon cyson.

- Cymorth i ddatblygu Pecyn Cymorth Cadw Pellter Cymdeithasol i nodi eitemau safonol y byddai'n ofynnol i bob gwasanaeth ailddechrau e.e., arwyddion, sgriniau, marciau llawr ac ati.

- Mae'r tîm iechyd a diogelwch wedi monitro deddfwriaeth a chanllawiau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyson er mwyn sicrhau bod y cyngor, y canllawiau a'r cymorth diweddaraf yn cael eu cynnig i reolwyr.

- Bu'r tîm iechyd a diogelwch yn gweithio i gefnogi gwasanaethau allweddol i ddarparu asesiadau risg perthnasol a phenodol ac arferion gweithio diogel mewn perthynas â meysydd fel cofrestru genedigaethau a marwolaethau, sefydlu a gweithio'n ddiogel mewn corffdai dros dro a darparu seremonïau priodas.

- Yn ogystal, pan ddigwyddodd unrhyw newidiadau o ran deddfwriaeth, canllawiau neu lefelau rhybudd (gan gynnwys mwy o gyfyngiadau symud / cyfnodau atal byr, cafodd yr holl asesiadau risg perthnasol ac arferion gweithio diogel eu hadolygu a'u diwygio yn ôl y gofyn.

- Wrth i fesurau gael eu cyflwyno e.e., cyhoeddwyd y gofyniad i wisgo gorchuddion wyneb ac ati, datblygodd a chynhyrchodd y tîm ganllawiau a chysylltu â gwasanaethau perthnasol eraill (e.e., Cyfarpar Diogelu Personol Cyffredinol, Gwasanaethau Sy'n Wynebu'r Cyhoedd ac ati.) i sicrhau bod y mesurau'n cael eu deall a'u gweithredu yn ôl yr angen.

- Wrth i'r gwaith o ddatblygu a chymeradwyo brechiadau fynd yn ei flaen, roedd y tîm iechyd a diogelwch yn rhan o'r gwaith o weithredu Canolfan Brechu Torfol a sefydlwyd yn Theatr y Ffwrnes ac roeddent yn rhan o'r Gweithgor Brechu i ddarparu cymorth a chyngor cymwys i gefnogi'r adleoliad diogel o weithwyr y nodwyd i weithio ar y cyd â Bwrdd Iechyd Hywel Dda i gyflawni camau cychwynnol y rhaglen frechu.

- Mae'r tîm iechyd a diogelwch wedi gweithio'n agos gyda'r timau Profi, Olrhain, Diogelu a Rheoli Heintiau i sicrhau bod cyngor cyson a chymwys yn cael ei roi ar draws yr awdurdod. Mae'r timau wedi datblygu perthynas waith gadarnhaol ac maent yn rhannu gwybodaeth a data allweddol i reoli gwasanaethau awdurdod ac addysg yn ddiogel.

- Arweiniodd y tîm iechyd a diogelwch ar y gwaith o adolygu cydymffurfiaeth mesurau a gyflwynwyd wrth ailddechrau gwasanaethau ac ysgolion. Er mwyn cyflawni hyn, datblygodd y tîm arolwg cydymffurfio a lluniodd adroddiad ar gyfer grwpiau rheoli Arian ac Aur i roi trosolwg a sicrwydd strategol i'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Gwnaed hyn yn unol â blaenoriaethau yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a

nodwyd, a oedd yn cynnal ymweliadau penodol â gwahanol sectorau ar draws yr awdurdod.

- Datblygodd y tîm iechyd a diogelwch, ar y cyd ag unigolion allweddol o'r adran Addysg a'r tîm Rheoli Heintiau, asesiadau risg a gweithdrefnau i gefnogi'r gwaith o Gyflwyno Profion Llif Unffordd mewn ysgolion.

- Datblygodd y tîm iechyd a diogelwch, ar y cyd ag unigolion allweddol o 'r adran Cymunedau a'r tîm Rheoli Heintiau, asesiadau risg a gweithdrefnau i gefnogi Cyflwyno Profion Llif Unffordd a phrofion PCR gyda Chartrefi Gofal a'r gwasanaeth Gofal Cartref.

- Bu'r tîm iechyd a diogelwch yn gweithio gyda'r tîm Rheoli Heintiau i asesu risg a datblygu arferion gweithio diogel i gyflwyno ymweliadau perthnasol a diogel â chartrefi gofal Cyngor Sir Caerfyrddin a chartrefi gofal y sector preifat.

**Iechyd Galwedigaethol**

Addasodd y Ganolfan Iechyd Galwedigaethol ei model gwasanaeth ar ddiwrnod cyntaf y cyfyngiadau symud cychwynnol er mwyn parhau i gynnal pob clinig o bell. Fodd bynnag, am gyfnod byr, cafodd rhai o'n gwasanaethau fel Arolygu Iechyd eu hoedi yn unol â Chanllawiau'r Llywodraeth. Dim ond yn dilyn diweddariadau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Llywodraeth y gwnaeth y gwasanaeth hwn ailddechrau mewn capasiti cyfyngedig, o bell. Cynhaliwyd ymgynghoriad â rheolwyr i lywio'r broses er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd ac yn effeithlon i'r holl weithwyr ymgymryd â nhw.

Yn dilyn cytundeb y Grŵp Rheoli Aur yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ailddechreuodd ein profion Arolygu Iechyd wyneb yn wyneb o 01.12.2020. Ers hynny, rydym wedi parhau i ddilyn yr asesiad risg llym a'r arferion gweithio diogel sydd ar waith, er mwyn diogelu iechyd yr holl weithwyr y mae angen iddynt ymweld â'r ganolfan

Fel y soniwyd uchod, mae holl apwyntiadau'r Gwasanaeth Cymorth Llesiant, apwyntiadau Cynghorydd Iechyd Galwedigaethol/Meddyg ac Ymgynghorydd wedi parhau'n rhithwir naill ai dros y ffôn neu MS Teams. O'r adborth a ddarparwyd, mae'r rhan fwyaf o weithwyr wedi croesawu'r newid, gan y gallai teithio, parcio, cyflyrau iechyd ac ati fod wedi bod yn rhwystrau iddynt gael mynediad i'r ganolfan o'r blaen. Gallai'r rhesymau hyn fod yn gysylltiedig â'r gostyngiad o 37% yn nifer y rhai y codir tâl arnynt ar ôl colli apwyntiad.

<u>Gwasanaeth Cymorth a Chyngor Llesiant Gweithwyr</u>

Oherwydd y pryderon cynyddol a godwyd gan staff i reolwyr a'r effaith ar lesiant staff yn sgil y pandemig, lansiodd y tîm Llesiant Gweithwyr y Gwasanaeth Cyngor a Chymorth Llesiant Gweithwyr dros dro i gefnogi gweithwyr drwy gyfnod brys y pandemig. Roedd y ffurflen hunanatgyfeirio ar gael i'r holl weithwyr yr oedd angen cymorth, gwybodaeth neu gyfeiriad ychwanegol arnynt.

<u>Asesiadau Risg Unigol</u>

Pan ddaeth y gorchymyn i hunanwarchod i ben ym mis Awst 2020, gwelsom gynnydd serth mewn atgyfeiriadau. Cyfeiriwyd pob gweithiwr mewn categorïau risg uchel nad oeddent yn gallu gweithio gartref ac yr oedd yn ofynnol iddynt ddychwelyd i'r gweithle at iechyd galwedigaethol ar gyfer asesiad gan un o'n clinigwyr. Roedd y gweithwyr meddygol hyn yn sicrhau bod gan reolwyr gyngor a gwybodaeth bwysig am iechyd eu gweithiwr i alluogi rheolwyr i wneud penderfyniadau priodol a mesuredig ynghylch dychwelyd i'r gweithle.

# 3.0 Diweddariad Iechyd a Llesiant

## 1. Cyflwyniad

Isod ceir crynodeb o'r gwaith a wnaed hyd yma yn 2020/21. Mae'r flwyddyn ariannol hon wedi'i harwain gan ofynion llesiant sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Ar ddechrau'r flwyddyn, cyflwynwyd y cyfyngiadau symud ac roedd y gwaith cychwynnol yn ymwneud â delio â'r materion llesiant posibl uniongyrchol a nodwyd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Gorbryder Covid
- Newid mewn trefniadau
- Llai o gysylltiad â phobl
- Llai o weithgarwch (er bod cynnydd i rai)
- Newid mewn arferion (yn gysylltiedig â newid mewn trefn arferol)

Wrth i amser fynd yn ei flaen, rydym wedi bod yn siarad â staff a rheolwyr yn ogystal â phartneriaid busnes gan gynnwys Iechyd Galwedigaethol i ymchwilio i'r materion llesiant sy'n codi yn dilyn yr argyfwng cychwynnol. Mae'r prif faterion yn cynnwys:

- Gorbryder ar ôl COVID
- Blinder / gorflinder / blino ar COVID
- Unigrwydd
- Diogelwch swyddi / materion ariannol
- Ansicrwydd ynglŷn â'r dyfodol, amserlenni ac ati.
- Poen yn y cyhyrau a'r cymalau yn sgil gweithio gartref mewn amodau dros dro
- Materion personol
- Llai o wytnwch
- Colli cymhelliant ar gyfer ffyrdd iachach o fyw

Mae'r wybodaeth isod yn amlinellu rhai o'r adnoddau, yr hyfforddiant, y digwyddiadau a'r gweithgareddau yr ydym wedi'u cynhyrchu neu wedi bod yn rhan ohonynt fel rhan o'n hymdrechion i helpu staff cymorth yn ystod y cyfnod hwn

## 2. Codi Ymwybyddiaeth a Hyrwyddo

Lluniwyd yr erthyglau canlynol a'u rhannu gyda'r staff drwy newyddion staff ac yn llythyr newyddion y staff (Erthyglau):

- Cadw mewn cysylltiad
- Cynnal trefn
- Bwyta'n dda ac yfed digon o ddŵr
- Cadw eich meddwl yn brysur
- Adnoddau iechyd meddwl
- Tynnwch anadl
- Bod yn egnïol
- Cymerwch hoe ac ewch ati i ymestyn yn rheolaidd

- Cysgu'n dda
- Mynd i'r afael ag unigrwydd yn ystod y cyfyngiadau symud
- Gwytnwch personol
- Cynghorion i osgoi gorflinder
- Mynd i'r afael â gorbryder ar ôl codi'r cyfyngiadau symud
- Cynghorion ar gyfer rheoli gormod o negeseuon e-bost
- Ymgyrch poen y cymalau
- Grwpiau hobi a diddordeb
- Diweddariad Hyfforddiant Iechyd Meddwl
- E-drafodaeth ynghylch Cydbwysedd rhwng Gwaith a Bywyd
- Actif Unrhyw Le
- Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd
- Diwrnod Ffitrwydd Cenedlaethol
- Diwrnod Atal Hunanladdiad y Byd
- Diogelwch wrth gael barbeciw

*Wythnos Llesiant Rheolwyr*

- Roedd tua 85 o reolwyr yn bresennol mewn sesiynau drwy gydol yr wythnos ar wytnwch personol, cymhelliant a hyfforddiant ar y Pecyn Cymorth Llesiant Rheolwyr a'r Pecyn Cymorth Siarad.

*Mae e-drafodaethau'n cael eu cynnal*

Mae ein e-sgyrsiau wedi'u trefnu yn caniatáu i staff gyfarfod yn rhithwir a thrafod eu profiadau yn ystod y pandemig, rhannu a siarad am eu pryderon yn ogystal â rhannu enghreifftiau o arferion da a syniadau gydag eraill. Rydym yn gobeithio parhau i gynnal sesiynau rheolaidd ar bynciau iechyd a llesiant amrywiol wrth i ni barhau i weithio o bell. Mae'r sesiynau canlynol wedi'u trefnu hyd yma:

- E-sgwrs caredigrwydd
- E-sgwrs cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd
- E-sgwrs cadw'n gysylltiedig

*Gweithgareddau*

- Rydym wedi parhau â'n heriau staff sy'n gysylltiedig ag iechyd i gynnal morâl a chymhelliant ac rydym yn gobeithio trefnu heriau pellach wrth i ni barhau i lywio drwy'r pandemig. Mae hyn wedi cynnwys y canlynol:
    - Her Actif rithwir i Staff
    - Camu tuag at y Nadolig
    - Camu i'r Gwanwyn

*Ffair Iechyd a Llesiant*

- Cynhaliwyd ein ffair iechyd a llesiant rithwir gyntaf erioed rhwng 30 Tachwedd a 4 Rhagfyr 2020; Cynhaliwyd 15 sesiwn drwy gydol yr wythnos i staff ar bynciau iechyd amrywiol

- Roedd enghreifftiau o sesiynau'n cynnwys sgwrs gwrth-stigma iechyd meddwl gan Hyrwyddwr Amser i Newid Cymru, sesiynau rhagflas Actif Unrhyw Le gan dîm Actif a sesiwn munud/rhagflas ymwybyddiaeth ofalgar.
- Daeth cyfanswm o 109 o staff i'r digwyddiad o bob un o'r pum adran o fewn yr Awdurdod
- Roedd adnoddau ar gael i'r holl staff ar lwyfan rhyngweithiol ar ôl y digwyddiad i'r rhai nad oeddent yn gallu bod yn bresennol.

**3. Dogfennau/adnoddau a gynhyrchwyd**

Cynhyrchwyd y dogfennau canlynol a naill ai eu dosbarthu fel PDF neu eu rhoi ar y fewnrwyd.

- Canllawiau o ran llesiant ar gyfer gwasanaethau critigol
- Gwybodaeth cymorth i'r gweithwyr
- Llesiant staff sydd ar ffyrlo
- Edrych ar ôl eich tudalen llesiant ar y fewnrwyd
- Fideo gofalu am eich llesiant
- Canllawiau o ran llesiant i reolwyr
    - Canllawiau cyffredinol
    - Siarter enghreifftiol
    - Cynllun gweithredu enghreifftiol
    - Pecyn Cymorth Siarad
    - Siart llif
- Taflen ffeithiau am orbryder
- Canllawiau llesiant staff i reolwyr sy'n dychwelyd i'r gwaith
- Cymorth llesiant dychwelyd i'r gwaith
- Tudalen ysgolion gofalu am eich llesiant
- Pecyn cymorth llesiant dychwelyd i'r ysgol
- Arbedwr sgrin llesiant
- Her cadw'n egnïol
- Cymorth llesiant BYOD
- Arferion gorau ar gyfer cyfarfodydd rhithwir
- Cadw'n iach yn ystod cyfnod ar ffyrlo
- Helpu eich tîm i gadw'n iach yn ystod cyfnod ar ffyrlo
- Cynghorion ynghylch llesiant ar gyfer cyfnod yr ŵyl

**4. Cyflwyniadau a roddwyd**

- Digwyddiad Rheolwyr Pobl Adran yr Amgylchedd x 2
    - Gofynnwyd iddynt fod yn bresennol i ddangos yr adnoddau a'r cymorth sydd ar gael i reolwyr a staff.
    - Pan ofynnwyd iddynt fod yn bresennol i siarad am weithredu'r camau a argymhellir ar gyfer Iechyd a Llesiant a beth yw'r rhwystrau.
- Cyfarfod gwasanaeth TG x 2
    - Gofynnwyd iddynt fod yn bresennol i ddangos yr adnoddau a'r cymorth sydd ar gael i reolwyr a staff.
- Sesiynau Galw Heibio Llesiant Penaethiaid

    - Roedd y sesiwn bob hanner tymor yn canolbwyntio ar roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Benaethiaid am y cymorth llesiant sydd ar gael iddynt.
    - Hyrwyddo'r adnoddau a'r cymorth sydd ar gael i staff yr ysgol.
    - Trafod pryderon ynghylch llesiant, rhannu arferion da.
- Cynhadledd Amser i Newid Cymru (**Allanol**)
    - Gofynnwyd i ni siarad yn y gynhadledd i rannu'r gwaith yr ydym yn ei wneud i gefnogi llesiant meddyliol staff.
    - Cyflwyno'r cymorth iechyd meddwl yr ydym wedi'i ddarparu i staff ers dod yn sefydliad ymrwymedig ac yn benodol ers argyfwng Covid-19.
    - Bydd rhywfaint o'r gwaith a gyflwynir yn y gynhadledd hon yn cael ei gyflwyno yn nigwyddiad Mind sydd i ddod (28 Hydref) gan Amser i Newid Cymru fel enghraifft o arfer da gan un o'u sefydliadau ymrwymedig.
- Cynhadledd Partneriaeth Cymorth Addysg (**Allanol**)
    - Cysylltodd y Bartneriaeth Cymorth Addysg â CSC i roi cyflwyniad yn y Gynhadledd Genedlaethol i ddangos y gwaith yr ydym wedi bod yn ei wneud i gefnogi staff ysgol.
    - Roedd Aeron Rees a Sion Walker yn bresennol a rhoddodd Aeron gyflwyniad yn y gynhadledd yng Nghymru a Lloegr i rannu'r cymorth llesiant a'r adnoddau yr ydym yn eu rhoi i staff ysgol.
- Gofal Cymdeithasol Cymru (**Allanol**)
    - Gofynnwyd i ni fynd i Gynhadledd Iechyd Meddwl Gofal Cymdeithasol Cymru i roi cyflwyniad ar yr adnoddau a'r cymorth yr ydym yn eu rhoi i staff.
- Bwrdd Arweinyddiaeth Iechyd a Diogelwch
    - Yn bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd Arweinyddiaeth Iechyd a Diogelwch i gyflwyno a cheisio cymeradwyaeth y Strwythur Grŵp Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.
- Gweithdai llesiant rheolwyr y Gwasanaethau Corfforaethol
    - Rhoi cyflwyniad ar lesiant i reolwyr mewn dau weithdy i'r holl reolwyr.
- Rheolwyr Gofal Cymdeithasol i Oedolion
    - Rhoi cyflwyniad ar wytnwch personol ar gyfer rheolwyr.
- Fforwm Penaethiaid Gwasanaeth
    - Rhoi cyflwyniad ar strwythur y grwpiau Iechyd a Llesiant Corfforaethol.
- Gweithdy Rheoli Pobl
    - Cyflwyno gweithdy ar lesiant i'r holl reolwyr pobl.
- Fforwm Staff Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel
- Y gwasanaeth cynllunio
    - Cyflwyno gweithdy ar becyn cymorth siarad.

**Mae'r gwaith yn cael ei gydnabod yn fewnol ac yn allanol, a gofynnwyd i'r tîm gynrychioli CSC mewn digwyddiadau allanol i hyrwyddo a rhannu'r arfer da.**

## 5. Hyfforddiant / E-ddysgu wedi'i drefnu

*Hyfforddiant wedi'i drefnu*

- Rheoli Iechyd Meddwl yn y Gweithle i'r holl Reolwyr Pobl
    - Sesiynau rhithwir wedi'u treialu ym mis Mehefin gydag adborth cadarnhaol.
    - Cyflwyno sesiynau pellach ym mis Hydref; 4 sesiwn bellach wedi'u cadarnhau a'u harchebu'n llawn ar gyfer mis Hydref a mis Tachwedd.
- Rheoli Iechyd Meddwl yn y Gweithle i'r holl Benaethiaid
    - Cwrs wedi'i deilwra ar gyfer staff arweinyddiaeth mewn ysgolion.
    - Mae 64 o Benaethiaid wedi mynychu'r cwrs hyd yn hyn.
- Ymwybyddiaeth o Iechyd meddwl i'r holl staff
    - 4 sesiwn bellach wedi'u cadarnhau ar gyfer mis Tachwedd; bydd dyddiadau pellach yn cael eu cadarnhau yn ôl yr angen.
- Hyfforddiant Eiriolwyr Amser i Newid Cymru
- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl

*E-Ddysgu wedi'i ddatblygu*

- Modiwl E-ddysgu ynghylch Gwytnwch Personol
- *E-ddysgu ynghylch y polisi camddefnyddio alcohol a sylweddau (yn cael ei ddrafftio)*

## 6. Digwyddiadau/hyfforddiant/gweminarau a fynychwyd

- Cynhadledd Llesiant Gweithwyr
- Cynhadledd Genedlaethol Iechyd a Llesiant yn y Gweithle
- Iechyd dynion a COVID-19
- Osgoi gorflinder
- Hyfforddiant Hyrwyddwyr Iechyd Dynion
- Gweminarau Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Lloegr
- Cadw'n ddiddan ac yn gysylltiedig yn y cartref
- Cynnal amgylchedd cadarnhaol gartref a pherthnasau cadarnhaol
- Arferion gorau ar gyfer gweithio o bell: yng nghyd-destun COVID-19
- Addysg Iechyd a Gwella Cymru a digwyddiad Gofal Cymdeithasol - Llunio Dyfodol y Gweithle Iechyd Meddwl

## 7. Strategaeth / polisïau

*Strategaeth iechyd a llesiant*

- Casglwyd syniadau am yr hyn y gallai'r strategaeth ei gynnwys. Mae nodau ac amcanion yn bodoli ar hyn o bryd ond mae angen eu diweddaru.
- Bydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Strategaeth Iechyd a Llesiant yn cael ei sefydlu i wneud y gwaith craidd ar y strategaeth yr ymgynghorir arni wedyn gyda'r Grŵp Iechyd a Llesiant Corfforaethol a'r is-grwpiau.

*Polisi straen ac iechyd meddwl*

- Mae'r polisi straen ac iechyd meddwl presennol yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn unol â blaenoriaeth gynyddol y meysydd hyn o fewn yr awdurdod.

**8. Y Fewnrwyd**

*Tudalennau mewnrwyd wedi'u creu er mwyn darparu adnodd ar gyfer pob agwedd ar lesiant*

- Adran Iechyd a Llesiant Newydd
    - Proffiliau cydgysylltwyr iechyd a llesiant
    - Straen, iechyd meddwl, llesiant emosiynol
    - Poen yn eich cefn a'ch cymalau
    - Cyngor ar ffordd o fyw
        - Bwyta'n dda
        - Bod yn gorfforol egnïol
        - Cadw'r meddwl yn weithgar
        - Ymlacio a chysgu'n dda
        - Rhoi'r gorau i ysmygu
        - Lleihau faint o alcohol rydych yn ei yfed
        - Rheoli'r menopos
        - Ymestyn yn rheolaidd
        - Archwiliad hunan-gymorth
    - Canllawiau i reolwyr a phenaethiaid ysgol
        - Canllawiau i reolwyr
        - Canllawiau i benaethiaid ysgol
    - Cymorth a chefnogaeth
        - Cymorth a chefnogaeth gofal cymdeithasol
    - Digwyddiadau a gweithgareddau
    - Strategaethau a chynlluniau gweithredu
    - Hyrwyddwyr Iechyd a Llesiant

*Ffurflen brysbennu/cyswllt iechyd a llesiant*

- Mae e-ffurflen gyswllt newydd wedi'i datblygu ac mae ar gael i staff ar ein tudalennau iechyd a llesiant newydd ar y fewnrwyd
- Mae'r ffurflen newydd hon yn rhoi'r dewis i staff:
    - gofyn am gymorth, gwybodaeth neu arweiniad ar bynciau iechyd amrywiol
    - darparu syniadau ac awgrymiadau ar gyfer cymorth, digwyddiadau neu weithgareddau ychwanegol
    - mynegi diddordeb mewn dod yn hyrwyddwr iechyd a llesiant

**9. Hyrwyddwyr Iechyd a Llesiant**

- Parhau i recriwtio Hyrwyddwyr Iechyd a Llesiant; mae mwy na 60 o Hyrwyddwyr ledled yr awdurdod a thros 60 mewn ysgolion bellach
- Grŵp Microsoft Teams wedi'i greu ar gyfer cyfathrebu rheolaidd a chyfleus gyda Hyrwyddwyr
- Cynhelir cyfarfodydd rhithwir rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Hyrwyddwyr am y gefnogaeth a'r adnoddau diweddaraf, digwyddiadau, hyrwyddiadau a gweithgareddau ac ati. Rhannu arferion da a syniadau, trafod pryderon ynghylch llesiant.

- Ar hyn o bryd, rydym yn edrych ar gyfleoedd dysgu a datblygu ychwanegol y gallwn eu cynnig i Hyrwyddwyr. Hyfforddiant Hyrwyddwyr Amser i Newid a wedi'i gyflwyno i 13 Hyrwyddwr ym mis Ionawr 2021

**10. Wedi'i dargedu**

*Ysgolion*

- Parhau â'r prosiect peilot gyda 4 ysgol (a ailddechreuwyd ym mis Medi 2020) - Bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi i lywio cymorth llesiant ehangach ysgolion.
- Cyd-gynhyrchu 'Pecyn Croeso Nôl' i gefnogi staff ysgol ym mis Mehefin 2020 ar ôl i ysgolion gau.
- Dull mwy penodol o gefnogi llesiant Penaethiaid
    - Sesiynau galw heibio bob hanner tymor i Benaethiaid ar thema eu Llesiant
    - Grŵp ffocws llesiant wedi'i sefydlu i gyfrannu at y cymorth a ddatblygwyd ar gyfer Llesiant Penaethiaid
    - Cafodd Cadeirydd y Llywodraethwyr hyfforddiant penodol ar gefnogi llesiant Penaethiaid
    - Hyfforddiant Rheoli Iechyd Meddwl y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) ar gyfer yr holl arweinwyr ysgol (64 wedi cael hyfforddiant hyd yn hyn)
- Mae cynllun Hyrwyddwyr Iechyd a Llesiant wedi'i gyflwyno mewn ysgolion – mae 60 o Hyrwyddwyr wedi'u henwebu hyd yn hyn, a fydd yn arweinwyr ar lesiant staff yn eu hysgolion
- Ym mis Tachwedd cyflwynwyd 3 sesiwn galw heibio Ymwybyddiaeth Ofalgar 5 munud a oedd ar agor i bawb er mwyn dechrau'r diwrnod ysgol gyda thawelwch a ffocws
- Mae trefniadau cydweithio'n parhau ag elusen Cymorth Addysg. Datblygu gweithdy ar gyfer ysgolion Sir Gaerfyrddin

*Yr Amgylchedd*

- Fe'u gwahoddwyd i ddod i gyfarfodydd amrywiol gyda'r Tîm Rheoli Adrannol yn ogystal â rhoi cyflwyniad mewn dau ddigwyddiad Rheoli Pobl
- Grŵp Iechyd a Llesiant yr Amgylchedd
    - Grŵp wedi'i sefydlu a dau gyfarfod wedi'u cynnal
